

## Atodiad 7 – Tystiolaeth yn ymwneud â Chyngor Sir Ceredigion

### Tystiolaeth gan y Cyngor

1. Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaeth mewnol i'w oedolion sy'n ofalwyr. Ers mis Ebrill 2022, mae asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc wedi cael eu comisiynu gan Ofalwyr Gofal Ceredigion, sefydliad trydydd sector, a gomisiynwyd i weithio gyda gofalwyr ifanc i nodi'r cymorth lleol sydd ar gael a, phan fo angen, cwblhau asesiad gofalwr ffurfiol. Dywedodd y Cyngor fod y gefnogaeth a ddarperir i ofalwyr ifanc gan Ofalwyr Gofal Ceredigion yn gadarnhaol iawn, gan fod y gefnogaeth a oedd ar gael yn benodol iawn i blant a phobl ifanc ac roedd yn negyddu'r risg y byddai'r Cyngor yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc a oedd yn canolbwyntio mwy ar yr oedolion.
2. Dywedodd y Cyngor fod ganddo Dîm Gofalwyr a Chymorth Cymunedol enghreifftiol gwobrwyg sydd wedi arwain y ffordd yng Nghymru mewn perthynas â gofalwyr yn ddiweddar. Dywedodd fod y gwasanaeth yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth a chymorth i ofalwyr anffurfiol a oedd yn eu galluogi i ddarparu eu rôl ofalu werthfawr yn eu cymunedau. Darparodd y Cyngor gyfres o wybodaeth i ddangos ei ymrwymiad a'i ffocws ar gefnogi gofalwyr ifanc ac oedolion sy'n ofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys ei dudalennau gwe, pecyn gwybodaeth i ofalwyr, cylchgronau ar gyfer gofalwyr, llyfrynau gwybodaeth ar gyfer gofalwyr ifanc, adroddiadau blynyddol, cofrestr o ganmoliaeth ac adroddiadau gwasanaeth a gomisiynwyd.
3. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod ei wasanaethau 'Llesiant, Cymorth a Gofal Gydol Oes' wedi cael eu datblygu i ddarparu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar atal a chymorth cynnar i'r rheini sy'n chwilio am IAA, a chymorth pan fo angen. Dywedodd fod yr holl gysylltiadau â'r Cyngor yn cael eu rheoli drwy'r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid ("CLIC"), sef tîm o staff hyfforddedig a gwybodus. Dywedodd, lle y bo'n briodol, fod aelodau o'r cyhoedd yn cael cynnig gwybodaeth a chyngor, gan gynnwys cyfeirio at ystod o wasanaethau lleol a chyfleoedd i ddiwallu eu hanghenion. Dywedodd y Cyngor mai dim ond os nad oedd y wybodaeth a'r cyngor a ddarparwyd yn bodloni cais neu anghenion y cwsmer y byddent yn cael eu trosglwyddo i'r Gwasanaeth Brysbennu ac Asesu Integredig 'Porth Gofal', sef ei 'ddrws ffrynt' i ofal cymdeithasol a lle'r oedd pob cyswllt, atgyfeiriad a galwad yn cael eu brysbennu gan weithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol. Dywedodd y Cyngor, pe na bai'r cais am asesiad o anghenion gofalwr, ond yn benodol ynghylch y cymorth sydd ar gael fel gofalwr, ac nad oedd ei staff yn nhîm CLIC yn gallu darparu'r

wybodaeth angenrheidiol, y byddai'r cwsmer yn cael ei drosglwyddo i'r Uned Gofalwyr, a oedd yn gweithredu o dan ei Wasanaeth Cymorth ac Atal Cynnar 'Porth Cynnal'. Dywedodd fod yr Uned Gofalwyr yn adolygu'r cais ac yn darparu unrhyw gymorth penodol, lefel isel sydd ar gael ac y byddai'r gofalwr yn cael cynnig asesiad o anghenion gofalwyr. Dywedodd y Cyngor mai'r hyn y mae'n ei ganfod yn ymarferol yw nad yw gofalwyr yn dweud eu bod yn ofalwyr, maent ond eisiau cymorth ar gyfer angen penodol, ac nad oeddent o reidrwydd eisiau mynd drwy'r broses gyfan o asesu eu hanghenion. Dywedodd y Cyngor ei fod yn ceisio esbonio i ofalwyr fanteision cael asesiad o anghenion, yn enwedig os oedd y gofalwr yn dangos lefel sylweddol o angen am gefnogaeth.

4. Dywedodd y Cyngor ei fod hefyd yn nodi gofalwyr pan dderbynai atgyfeiriad i asesu'r person sy'n derbyn gofal, a allai fod angen gofal a chymorth drwy eu hawl eu hunain. Dywedodd y Cyngor y byddai gofalwyr a nodwyd fel hyn hefyd yn cael cynnig asesiad o anghenion gofalwyr. Eglurodd y Cyngor, pe bai gofalwr yn gwrthod asesiad, y byddai'n cael ei ychwanegu at ffurflen asesu'r person sy'n derbyn gofal gyda rheswm dros wrthod y gofalwr. Dywedodd fod gofalwyr bob amser yn cael gwybod, pe baent yn newid eu meddwl, y gellid cwblhau asesiad o anghenion. Dywedodd y Cyngor, hyd yn oed pe bai gofalwr yn gwrthod asesiad, y byddent yn dal i gael eu hychwanegu at ei gofrestr gofalwyr ac y byddent yn derbyn gwybodaeth reolaidd am y gwasanaethau cymorth i ofalwyr sydd ar gael.

5. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod ganddo brosesau gwahanol ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc. Ar gyfer oedolion, lle'r oedd asesiad gofalwr yn cael ei ystyried yn ofyniad neu'n gais penodol, cafodd ei ddyrannu i weithiwr proffesiynol priodol i'w gwblhau. Yn ystod y broses asesu, roedd cyfleoedd i gyfeirio at wasanaethau cymorth lleol yn cael eu hystyried yn rheolaidd. Pan ystyriwyd bod cynllun cymorth ffurfiol yn ofyniad, fe'i cwblhawyd mewn partneriaeth â'r gofalwr a nodwyd cymorth i ddiwallu ei anghenion. Ar gyfer gofalwyr ifanc, dywedodd y Cyngor fod eu hatgyfeiriadau wedi'u hanfon ymlaen at Ofalwyr Ceredigion. Dywedodd y Cyngor, pe na bai'r gwasanaethau a ddarperir gan Ofalwyr Ceredigion yn gallu diwallu anghenion gofalwr ifanc, y byddent yn cael eu hatgyfeirio'n ôl at yr Uned Gofalwyr yn y lle cyntaf, gan mai'r Uned Gofalwyr sy'n monitro'r contract a'r cytundeb gyda Gofalwyr Ceredigion. Dywedodd y Cyngor y byddai wedyn yn penderfynu pa un o'i wasanaethau arbenigol, a allai fod eisoes yn ymwybodol o'r plentyn neu ei deulu, oedd yn y sefyllfa orau i fwrw ymlaen â'r asesiad gofalwr ifanc.

6. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod y Tîm Cymorth i Ofalwyr a'r Gymuned yn gweithio'n rhagweithiol gyda chymunedau lleol i ddatblygu a gwella gwasanaethau cyffredinol a gwella mynediad at gyfleoedd lleol am gymorth, a oedd yn aml yn dileu'r angen am gynllun asesu a chymorth statudol ffurfiol ar gyfer gofalwyr.

7. Tynnodd y Cyngor sylw at y canlynol:

- Roedd wedi cyhoeddi 224 o gardiau gofalwyr sy'n oedolion a 43 o gardiau gofalwyr ifanc yn 2022/2023.
- Cofrestrwyd 1820 o oedolion fel gofalwyr.
- Cofrestrwyd 150 o bobl ifanc fel gofalwyr ifanc.
- Cefnogwyd 199 o ofalwyr sy'n oedolion drwy ei wasanaeth a gomisiynwyd.
- Cefnogwyd 102 o ofalwyr ifanc drwy ei wasanaeth a gomisiynwyd.
- Roedd 774 o ofalwyr wedi elwa o'r Gronfa Gofalwyr Integredig Rhanbarthol.

8. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod y 'Llwybr Atgyfeirio' i ofalwyr, menter ranbarthol a ddechreuodd yng Ngheredigion, yn sicrhau bod gofalwyr yn cael eu hannog gan yr awdurdod lleol, y gwasanaethau iechyd a'r trydydd sector i gofrestru fel gofalwr gyda'u meddyg teulu. Ar ôl cofrestru, cafodd eu manylion eu trosglwyddo i dîm didoli/brysbennu Porth Gofal, y Tîm Cymorth i Ofalwyr a'r Gymuned a darparwyd cymorth wedi'i gomisiynu i ofalwyr. Yna, rhoddwyd Pecyn Gwybodaeth Gofalwyr i'r gofalwyr a oedd yn cynnwys gwybodaeth am hawliau o ran budd-daliadau a grwpiau cymorth cymunedol a, lle bo hynny'n briodol, asesiad o anghenion gofalwyr. Dywedodd y Cyngor eu bod hefyd wedi cael cyfle i ymuno â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr a/neu gefnogaeth bwrpasol drwy wasanaethau a gomisiynir.

9. Tynnodd y Cyngor sylw at arolygiad diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru ("CIW") a oedd yn cydnabod bod ei staff yn cymryd amser i wrando ar ofalwyr a meithrin perthynas waith dda, a bu cynnydd nodedig yn nifer y gofalwyr a ymunodd â'i Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr, sy'n rhan hanfodol o'i ddull ymyrraeth gynnar o gefnogi gofalwyr.

10. Eglurodd y Cyngor bod yna broses barhaus ar gyfer monitro ac adolygu asesiadau ar gyfer oedolion sy'n ofalwyr, yn unol â'r dyletswyddau statudol ar gyfer unrhyw asesiad a gwblheir gan y Cyngor. Dywedodd ei bod yn bwysig, yn enwedig pan oedd cymorth lefel isel wedi'i ddarparu, monitro cynnydd fel, pe bai pethau'n gwaethygu neu'n troi'n argyfwng, y gellid adnabod sefyllfa'n gyflym a'i huwchgwyfeirio i'r llwybr mwy ffurfiol. Dywedodd, pe bai

newidiadau sylweddol mewn amgylchiadau, y byddai Rheolwyr Achos yn mynd i'r afael â hyn wrth adolygu cynllun gofal a chymorth y person sy'n derbyn gofal oherwydd, yn aml, roedd yn golygu bod cynnydd yn anghenion y person sy'n derbyn gofal wedi arwain at gynyddu anghenion y gofalwr. Dywedodd y Cyngor ei bod yn bwysig gweld y sefyllfa gyfan yn ei chyfanrwydd. Dywedodd y Cyngor, pan ofynnai gofalwr am asesiad o anghenion gofalwr ac nad oedd y person sy'n derbyn gofal yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ei fod hefyd yn gyfle i'r Cyngor ystyried a oedd gan y person sy'n derbyn gofal anghenion am ofal a chymorth.

11. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod rheolwr yn sicrhau ansawdd pob asesiad o anghenion gofalwyr. Dywedodd fod adnoddau archwilio wedi'u datblygu ar gyfer archwilio asesiadau o anghenion gofalwyr a bod capasiti'n cael ei ymgorffori yn ei strwythur ar gyfer gwneud gwaith archwilio. Dywedodd fod hyn yn cynnwys datblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd a recriwtio Swyddog Sicrhau Ansawdd a Swyddog Cymorth Sicrhau Ansawdd i ddarparu goruchwyliaeth annibynnol.

12. Dywedodd y Cyngor bod gan ei Dîm Cymorth i Ofalwyr a'r Gymuned system gadarn ar waith i gasglu arolygon boddhad cwsmeriaid rheolaidd ac i geisio adborth gan ofalwyr oherwydd, waeth pa dîm a gwblhaodd yr asesiad o anghenion gofalwyr, y Tîm Cymorth i Ofalwyr a'r Gymuned a oedd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun.

13. Darparodd y Cyngor gopi i'r ymchwiliad o Strategaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru, y mae'n ei chefnogi. Dywedodd fod hyn yn caniatáu i'r Cyngor elwa ar ddulliau rhanbarthol o gefnogi gofalwyr, heb golli ei gyd-destun lleol. Dywedodd y Cyngor bod ei swyddogion hefyd yn aelodau o grŵp Rhwydwaith Dysgu a Gwella Gofalwyr Cymru Gyfan (COLIN), gan roi cyfle i rannu gwybodaeth rhwng cymheiriaid mewn awdurdodau lleol eraill a chaniatáu i ddysgu ac arferion gorau o bob rhan o Gymru gael eu rhannu a'u hystyried.

14. Darparodd y Cyngor wybodaeth fonitro ar gyfer ei wasanaethau a gomisiynwyd ar gyfer gofalwyr ifanc. Roedd hyn yn cynnwys manylion am nifer y gofalwyr ifanc a gafodd sgwrs 'Beth sy'n Bwysig', y rheini a oedd yn darparu gwybodaeth a chyngor, cymorth un i un neu seibiant a'r rheini a gafodd eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad o anghenion gofalwr.

15. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod Gofalwyr Ceredigion yn darparu llawer iawn o ddata perfformiad er mwyn monitro'r cyswllt yn rheolaidd. Fodd bynnag, dywedodd y Cyngor nad oedd yn cadw'r manylion penodol ar gyfer asesiadau gofalwyr ifanc gan eu bod yn cael eu rheoli gan Ofalwyr Ceredigion.
16. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion nad oedd ganddo, ar hyn o bryd, broses ar waith i'r Cyngor gynnal archwiliadau ansawdd ar asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd gan Ofalwyr Ceredigion. Dywedodd ei fod ar hyn o bryd yn cynnal ymarfer tendro ar gyfer Gwasanaethau Allgymorth i Ofalwyr ar gyfer oedolion a phlant a bod sicrhau ansawdd yn rhan o'i fanyleb newydd.
17. Dywedodd y Cyngor nad oedd ganddo broses mewn lle i fonitro a oedd gofalwr ifanc neu berson â chyfrifoldeb rhiant yn fodlon gyda chanlyniad asesiad a gwblhawyd gan Ofalwyr Ceredigion. Dywedodd hefyd nad oedd ganddo broses i fonitro a oedd canlyniad asesiad yn parhau i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc, ond bod Gofalwyr Ceredigion wedi cysylltu â'r Cyngor pan nododd nad oedd yr asesiad a gwblhawyd gan Ofalwyr Ceredigion yn diwallu anghenion y gofalwr ifanc.
18. Dywedodd y Cyngor, lle'r oedd newidiadau sylweddol yng nghanlyniadau neu amgylchiadau gofalwr ifanc, y gallai'r gofalwr ifanc neu'r person â chyfrifoldeb rhiant ofyn am asesiad wedi'i ddiweddarau gan Ofalwyr Ceredigion. Dywedodd ei bod yn anghyffredin i ofalwr ifanc wrthod asesiad o anghenion gofalwr, ond pe bai'n gwrthod, byddai'n cael ei gofnodi ar gronfa ddata Gofalwyr Ceredigion, Charity Log.
19. Dywedodd y Cyngor fod trosglwyddo pobl ifanc o wasanaethau gofalwyr ifanc i wasanaethau gofalwyr sy'n oedolion yn cael ei reoli drwy sicrhau bod y gofalwr ifanc yn cael sylw gan y Tîm Cymorth i Ofalwyr a'r Gymuned . Dywedodd y Cyngor fod Gofalwyr Ceredigion yn wasanaeth 'gydol oes' ac y gallai gofalwyr ifanc fanteisio ar wahanol arbenigeddau'r gweithwyr allgymorth i gael cymorth priodol wrth iddynt gael eu trosglwyddo. Dywedodd y byddai Gofalwyr Ceredigion yn parhau i gefnogi gofalwyr ifanc pe baent yn symud o'r sir, er enghraifft, i'r coleg, ar yr amod bod y person sy'n derbyn gofal yn parhau i fyw yn y sir. Dywedodd fod Gofalwyr Ceredigion yn cysylltu ag asiantaethau allweddol, e.e. Gyrfa Cymru, fel rhan o'r gefnogaeth a gynigiwyd i ofalwyr ifanc. Dywedodd y Cyngor bod yna gefnogaeth sylweddol mewn ysgolion a cholegau drwy'r Cynllun Buddsoddwyr mewn Gofalwyr a fyddai'n cyfrannu at gynorthwyo pobl ifanc i bontio i addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant.

20. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod y staff sy'n cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr yn y Cyngor yn Weithwyr Cymdeithasol cymwysedig, cynorthwywyr Gwaith Cymdeithasol a Gweithwyr Cymdeithasol dan hyfforddiant. Dywedodd fod cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr yn ffocws i'r hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol ac na fyddai'n caniatáu i unrhyw un gwblhau asesiad o anghenion gofalwyr os nad oeddent yn hyderus bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth ofynnol. Dywedodd y Cyngor hefyd, pan oedd asesiadau o anghenion gofalwyr yn cael eu dyrannu i staff, y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gymhlethdod yr amgylchiadau cyn eu dyrannu i aelod o staff. Dywedodd y Cyngor bod proses gymeradwyo hefyd ar gyfer pob asesiad a gwblhawyd, sy'n darparu sicrwydd ansawdd.
21. Dywedodd y Cyngor fod staff yn ei dîm CLIC yn dilyn cynllun hyfforddi cadarn, bod ganddynt daflenni gwybodaeth y gallant gyfeirio atynt a bod ansawdd eu penderfyniadau'n cael ei wirio i ganfod unrhyw anghenion hyfforddi. Dywedodd y Cyngor, dros amser, fod staff CLIC wedi dysgu gofyn cwestiynau pan fo'r galwyr yn gwneud "sylwadau sbarduno" sy'n gwneud i'r aelod staff feddwl y gallai fod angen asesiad o anghenion gofalwr arnynt.
22. Dywedodd y Cyngor ei bod yn ofynnol i'r holl staff yn ei Raglen Lles Gydol Oes, gan gynnwys tai, gwblhau modiwl hyfforddiant gorfodol sy'n ymwneud â gofalwyr i sicrhau eu bod, yn eu gwaith o ddydd i ddydd, yn gallu nodi gofalwr ac esbonio iddynt sut i geisio asesiad o anghenion gofalwr.
23. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod ei Dîm Cymorth i Ofalwyr a'r Gymuned yn ymgymryd â gwaith hyrwyddo drwy ymweld â grwpiau cymunedol lleol er mwyn ceisio adnabod gofalwyr yn rhagweithiol neu helpu gofalwyr i hunan-adnabod. Dywedodd fod gan ei 'Gysylltwyr Cymunedol', sydd y tu allan i'r Uned Gofalwyr, rôl hefyd o ran adnabod gofalwyr a bod gwybodaeth ar gael yn ei chylchlythyrau ac ar ei wefan i helpu pobl i adnabod eu hunain fel gofalwyr. Roedd y Cyngor yn cydnabod nad oedd pawb yn gallu cael gafael ar adnoddau digidol ac eglurodd ei fod hefyd yn cynnwys posteri am wasanaethau cymorth i ofalwyr mewn llyfrgelloedd a meddygfeydd.
24. Dywedodd y Cyngor mai un o'r cwestiynau cyntaf a ofynnir gan staff CLIC oedd cadarnhau dewis iaith y cwsmer, ac eglurodd fod ganddo staff sy'n siarad Cymraeg i gefnogi cwsmeriaid yr oedd y Gymraeg yn ddewis iaith ganddynt. Dywedodd y Cyngor fod gan Geredigion leiafrif bach iawn o breswylwyr nad Cymraeg neu'r Saesneg oedd eu hiaith, ond ei fod, fodd bynnag, yn gallu cael mynediad at wasanaethau cyfieithu os oedd angen. O ran

anghenion ychwanegol, dywedodd y Cyngor ei fod yn ystyried anghenion pob unigolyn wrth gwblhau asesiad gyda gwybodaeth ar gael mewn fformat Hawdd ei Ddeall (system sy'n seiliedig ar luniau i helpu'r rheini sydd ag anawsterau dysgu i ddeall), a staff sy'n cael hyfforddiant niwroamrywiaeth a chydaddoldeb. Dywedodd y Cyngor bod gofalwyr yn cael cynnig eiriolaeth fel mater o drefn cyn cwblhau eu hasesiad. Dywedodd fod Gwasanaeth Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol Gorllewin Cymru i oedolion a Tros Gynnal Plant ("TGP") yn darparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc. Dywedodd fod Age Cymru hefyd yn darparu gwasanaeth eiriolaeth cenedlaethol i ofalwyr.

25. Dywedodd y Cyngor bod rhai heriau wedi'u hachosi gan y system rheoli gwybodaeth a ddefnyddir gan y Cyngor, gan nad oedd ei wasanaethau cymorth ac atal cynnar byth yn cael eu cynnwys yn y system, felly, er bod yr holl wybodaeth statudol yn cael ei chofnodi ar ei system rheoli gwybodaeth, ni fyddai'r Uned Gofalwyr o reidrwydd yn gallu cael gafael ar y wybodaeth honno. Mae'r Uned Gofalwyr yn casglu ei gwybodaeth ar wahân ac adroddir yn flynyddol ar y gwaith a gwblhawyd gan yr Uned Gofalwyr.

26. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod ei system ar gyfer oedolion sy'n ofalwyr, yn gweithio'n dda iawn, heb unrhyw bryderon nac angen am unrhyw newidiadau neu welliannau. Dywedodd mai ei her fwyaf oedd ei allu i gwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr ac roedd yn ystyried sut y gallai ad-drefnu gwasanaethau i gael staff penodol i gwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr oherwydd, yn aml, byddai gwaith/asesiadau eraill yn cael blaenoriaeth, e.e. asesiadau rhyddhau o'r ysbyty. Dywedodd y Cyngor ei fod yn ystyried sut y gallai fod yn fwy arloesol o ran asesu anghenion gofalwyr gan fod asesiadau o anghenion gofalwyr yr un mor bwysig ag unrhyw asesiad statudol arall, ond yn aml ni chawsant y flaenoriaeth oherwydd y galw am wasanaethau.

27. Dywedodd y Cyngor ei fod yn datblygu ei wasanaeth gofal wedi'i alluogi gan dechnoleg ac yn edrych ar sut y gallai ddefnyddio technoleg a thechnoleg ddigidol i gefnogi ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau i gefnogi gofalwyr, er enghraifft, defnyddio 'dyfeisiau y gellir eu gwisgo'; unrhyw fath o ddyfais electronig a gynlluniwyd i'w gwisgo ar gorff y defnyddiwr, er mwyn rhoi ychydig mwy o ryddid i ofalwyr fynd allan tra'n gallu monitro'r rhai y gofelir amdanynt a rhoi sicrwydd iddynt.

28. Gofynnwyd i'r Awdurdodau Ymchwilio hefyd ddarparu'r data cydraddoldeb a gofnodwyd ar gyfer gofalwyr yr aseswyd eu hanghenion yn 2022/2023 i'r ymchwiliad. Darparodd Cyngor Sir Ceredigion ddata yn ymwneud â rhyw, ethnigrwydd a dewis iaith

oedolion sy'n ofalwyr. Dywedodd fod data'n ymwneud ag anabledau ar gael, ond ei fod yn gysylltiedig â nifer fach o ofalwyr. Ni ddarparwyd data ar gyfer oedran a chyfeiriadedd rhywiol. O ran rhywedd, roedd 70% o ofalwyr sy'n oedolion yn fenywaidd a 30% yn wrywaidd. Dywedodd Cyngor Sir Ceredigion fod 99.9% o oedolion sy'n ofalwyr yr aseswyd eu hanghenion yn Wyn. Cymraeg oedd dewis iaith 12% o'r oedolion sy'n ofalwyr yr aseswyd eu hanghenion, gyda'r 88% arall yn ffafrio'r Saesneg.

29. Nid oedd Cyngor Sir Ceredigion yn cadw data cydraddoldeb ar gyfer gofalwyr ifanc yn y sir. Darparwyd data ar gyfer gofalwyr ifanc yr aseswyd eu hanghenion yn 2022/2023 gan Ofalwyr Ceredigion. O ran rhywedd, roedd 41% yn fenywaidd a 55% yn wrywaidd. Ni chofnodwyd unrhyw ddata ar gyfer 4% o ofalwyr ifanc.

30. Mewn arolwg gwerthuso perfformiad diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru ("AGC") yng Nghyngor Sir Ceredigion (Mai 2023), nodwyd meysydd i'w gwella. Canfu AGC fod angen i Gyngor Sir Ceredigion sicrhau bod ymarferwyr yn cydymffurfio'n gyson â'r ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo llesiant y gofalwr, drwy gynnig asesiadau gofalwyr yn benodol i bobl er mwyn trafod pa gymorth sydd ei angen arnynt, gyda rhesymau dros wrthod asesiad yn cael ei gofnodi fel mater o drefn.

### **Tystiolaeth gan Ofalwyr Ceredigion**

31. Mae [Gofalwyr Ceredigion](#) yn rhan o Credu, elusen sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl. Mae Gofalwyr Ceredigion yn darparu gwasanaethau cefnogi i oedolion sy'n ofalwyr a gofalwyr ifanc.

32. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion ei fod wedi dechrau cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr gyda gofalwyr ifanc yng Ngheredigion ym mis Ebrill 2022. Dywedodd y gall gofalwyr ifanc, neu eu rhieni, atgyfeirio eu hunain, neu gallant gael eu cyfeirio at eu gwasanaeth gan weithiwr proffesiynol. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion fod gofalwyr ifanc yn cael cynnig ymweliad cartref gan un o'i weithwyr allgymorth i gychwyn asesiad o anghenion gofalwyr a allai gymryd nifer o ymweliadau i'w gwblhau yn ei gyfanrwydd. Dywedodd fod y gweithiwr allgymorth yn cwblhau nodiadau achos ar ei gronfa ddata a chadwyd taenlen ar wahân yn cofnodi'r asesiad, a darparwyd copi ohoni i'r ymchwiliad. Rhoddwyd cyfle i Gofalwyr Ceredigion ddarparu copïau o'r nodiadau achos, ond ni wnaeth hynny.

33. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion, pe na bai'n gallu diwallu anghenion penodol y gofalwr ifanc, y byddai'n gofyn am gefnogaeth gan y bobl fwyaf priodol i'w cefnogi, er



enghraifft, gan eu teulu, Gwasanaethau Cymdeithasol, ysgol neu gyfuniad o'r rhain. Nododd Gofalwyr Ceredigion fod hyn yn wendid oherwydd, pan oedd gan ofalwyr ifanc anghenion mwy sylweddol, roedd yn gallu eu hatgyfeirio at Wasanaethau Cymdeithasol ond, oherwydd nad oedd yn rhan o'r Cyngor, nid oedd ganddo gymaint o ddylanwad dros yr hyn a allai ddigwydd nesaf. Roedd o'r farn bod hwn yn faes lle'r oedd angen eglurder ac y gellid gwneud gwelliannau oherwydd, er ei fod yn gallu cefnogi gofalwyr ifanc gyda sawl agwedd ar eu hanghenion, ni allai ddarparu ar gyfer yr anghenion a nodwyd ym mhob achos.

34. O ran pontio gofalwyr ifanc i fod yn ofalwyr sy'n oedolion, eglurodd Gofalwyr Ceredigion mai un o'r rhesymau y mae wedi tendro ar gyfer y contract gyda gofalwyr ifanc oedd ei fod hefyd wedi gweithio gyda gofalwyr sy'n oedolion ac na fyddai unrhyw newid gwirioneddol fel y cyfryw, oherwydd pan fyddant yn oedolion ifanc sy'n ofalwyr, gallent ddechrau mynychu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar oedolion pan oeddent yn teimlo'n barod. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion ei fod hefyd wedi helpu gofalwyr ifanc i wneud cais am grantiau i helpu i bontio i addysg bellach, wedi darparu cymorth un-i-un yn ystod y cyfnod pontio ac wedi annog mentora cymheiriaid i feithrin sgiliau trosglwyddadwy a phrofiad.

35. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion eu bod, gyda chaniatâd, wedi trosglwyddo manylion eu gofalwyr ifanc i Wasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr y Cyngor.

36. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion fod ei weithwyr allgymorth wedi cael eu hyfforddi mewn Cyfathrebu Cydweithredol, a ddatblygwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") sy'n ymwneud â gofalwyr ifanc. Dywedodd ei fod yn ceisio dod o hyd i ddarparwr i ddarparu cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4 i'w staff, ond ei bod yn anodd dod o hyd i ddarparwr. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion fod staffio wedi bod yn broblem a bod ei staff yn treulio llawer iawn o amser yn cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr yn hytrach na chwblhau gweithgareddau i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc.

37. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion fod ganddynt staff sy'n siarad Cymraeg i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc yr oedd Cymraeg yn ddewis iaith ganddynt, a'u bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfieithu os nad Cymraeg neu Saesneg oedd dewis iaith y gofalwr ifanc. O ran anghenion ychwanegol, dywedodd Gofalwyr Ceredigion y byddai'n gofyn i ofalwyr ifanc a'u teulu a oedd ganddynt unrhyw anghenion ychwanegol i sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan lawn yn eu hasesiad.

38. Dywedodd na fu unrhyw archwiliadau o'r asesiadau a gwblhawyd yn 2022/2023, gan mai dyma flwyddyn gyntaf y contract, ond ei fod yn cynnal adolygiad o sut i gofnodi gwybodaeth asesu anghenion gofalwyr ac y byddai'n cynnwys canfyddiadau'r ymchwiliad hwn yn ei brosesau. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion mai'r unig oruchwyliaeth mewn perthynas ag asesiadau o anghenion gofalwyr a gwblhawyd oedd drwy oruchwyliaeth y gweithwyr allgymorth. Dywedodd nad oedd dull ffurfiol ar gyfer gwirio ansawdd yr asesiadau a gwblhawyd.

39. O ran monitro a oedd canlyniad asesiad yn parhau i ddiwallu anghenion gofalwr ifanc, dywedodd Gofalwyr Ceredigion ei bod yn broses barhaus, gyda gweithwyr allgymorth yn monitro'r sefyllfa, gan eu bod wedi treulio mwy o amser gyda'r gofalwr ifanc, gan ganiatáu i'r gweithiwr allgymorth ymateb yn ddeinamig i unrhyw newidiadau yn amgylchiadau'r gofalwr ifanc.

40. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion nad oedd yn monitro a oedd gofalwyr ifanc, eu teulu neu'r person â chyfrifoldeb rhiant yn fodlon ar ganlyniad eu hasesiad ond roedd yn cynnal arolygon rheolaidd i weld a oeddent yn fodlon â'r gefnogaeth yr oeddent yn ei chael.

41. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion, pe bai gofalwr ifanc neu berson â chyfrifoldeb rhiant yn gwrthod asesiad o anghenion gofalwr, y byddai'n cael ei gofnodi yn y nodiadau achos.

42. Darparodd Gofalwyr Ceredigion gopiâu o adroddiadau monitro contractau a ddarparodd i'r Cyngor. Dywedodd iddo gyfarfod â'r Cyngor yn chwarterol i drafod yr adroddiad monitro, ond nid oedd y Cyngor yn monitro'r asesiadau a gwblhawyd yn benodol.

43. Darparodd Gofalwyr Ceredigion hefyd gopiâu o'i adnoddau gwybodaeth sydd ar gael i ofalwyr ifanc i'w hysbysu am eu hawliau, gan gynnwys eu hawl i asesiad o anghenion gofalwyr.

44. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion nad oedd, o ran eiriolaeth, yn cynnig eiriolaeth annibynnol i ofalwyr ifanc a'u teuluoedd fel mater o drefn. Dywedodd mai ef ei hun oedd y gwasanaeth cynghori a chefnogi. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion y gallai Tros Gynnal Plant gefnogi os oedd sefyllfa'r plentyn yn bodloni'r meini prawf, h.y. bod angen gofal a chymorth ar y person ifanc. Dywedodd Gofalwyr Ceredigion, petai gofalwr ifanc yn cael ei atgyfeirio at y

Gwasanaethau Cymdeithasol, y gallai ei weithiwr allgymorth fynychu gyda hwy fel eiriolwr anffurfiol.

45. Darparodd Gofalwyr Ceredigion gofiau o ddeunyddiau hyfforddi staff a'r llawlyfr ymarfer 'Ffordd Credu', a oedd yn cynnwys y polisi a'r weithdrefn ar gyfer asesu anghenion gofalwyr.

### Tystiolaeth gan staff

46. Darparwyd manylion staff awdurdodau lleol sy'n darparu IAA ac sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr gan bob un o'r Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt. Gofynnwyd i staff o'r darparwyr gwasanaeth a gomisiynwyd, Gofalwyr Ceredigion, NEWCIS, Adferiad a Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot, gymryd rhan yn yr ymchwiliad a darparu tystiolaeth. Gofynnwyd am y dystiolaeth drwy arolygon ar-lein. Gwnaed addasiad rhesymol<sup>1</sup> i ganiatáu i 1 aelod o staff ddarparu eu tystiolaeth ar lafar.

47. Mae'r tabl isod yn crynhoi nifer y staff a holwyd, a nifer yr ymatebion a dderbyniwyd:

	Ardal Awdurdod Lleol	Nifer y staff a holwyd	Nifer yr ymatebion a dderbyniwyd (*)	Cyfradd ymateb (**)
<b>Staff Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth</b>	Caerffili	16	5	31%
	Ceredigion	22	19	86%
	Sir y Fflint	10	7	70%
	Castell-nedd Port Talbot	6	0	0%
<b>Staff lle mae asesiadau o anghenion gofalwyr yn rhan o'u rôl</b>	Caerffili	168	92 (8)	55% (50%)
	Ceredigion	42	20 (2)	48% (43%)
	Sir y Fflint	14	9	64%
	Castell-nedd Port Talbot	227	31 (11)	14% (9%)
<b>Staff darparwr gwasanaeth wedi'i gomisiynu sy'n cwbllhau asesiadau o anghenion gofalwyr</b>	Caerffili***	Amh	Amh	Amh
	Ceredigion	3	2	67%
	Sir y Fflint	10	9 <sup>2</sup>	90%
	Castell-nedd Port Talbot	4	3	75%

<sup>1</sup> Newid a wnaed i ddileu neu leihau anfantais sy'n gysylltiedig ag anabledd rhywun.

<sup>2</sup> Un ar absenoldeb mamolaeth

\* Ymatebion anghyflawn

\*\* Cyfradd ymatebion i'r holiadur a gwblhawyd

\*\*\* Dim gwasanaethau wedi'u comisiynu

## **Staff Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**

48. Dywedodd ymatebwyr eu bod wedi derbyn amrywiaeth o hyfforddiant yn ymwneud ag asesiadau o anghenion gofalwyr – Hyfforddiant Lles Gydol Oes, hyfforddiant Deddf SSWB, hyfforddiant Gwasanaeth Buddsoddwyr mewn Gofalwyr, hyfforddiant Arwyddion Diogelwch, Hyfforddiant Awtistiaeth a hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Les. Dywedodd ymatebwyr eu bod yn ymwybodol bod gan ofalwyr hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr a bod 'ffurflen glyfar'<sup>3</sup> yn eu cefnogi i wneud atgyfeiriadau ar gyfer asesiad o anghenion gofalwr. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod wedi cwblhau cwrs hyfforddiant Ymwybyddiaeth Gofalwyr gydag eraill yn mynychu'r cwrs adeg cyhoeddi'r arolwg. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod yr hyfforddiant a gawsant yn eu helpu i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag asesiadau o anghenion gofalwyr. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn gwybod ble i ddod o hyd i'r broses ar gyfer asesu anghenion gofalwyr ac yn dweud ei bod yn hygyrch iawn ac yn ddealladwy.

49. Dywedodd ymatebwyr eu bod yn croesawu cysylltiadau a gohebiaeth gan ofalwyr yn Gymraeg ac yn Saesneg a bod staff dwyieithog ar gael. O ran ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, dywedodd llawer o ymatebwyr eu bod yn ymwybodol bod y Cyngor yn gallu cael mynediad at wasanaethau cyfieithu a dywedodd llawer y byddent yn gofyn am gyngor gan reolwyr a goruchwylwyr mewn amgylchiadau o'r fath. Roedd dau ymatebydd yn ansicr pa gymorth oedd ar gael i ofalwyr nad Cymraeg na Saesneg oedd eu dewis iaith.

50. Dywedodd ymatebwyr fod Siarter Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor yn addo bod cwsmeriaid yn gallu cysylltu â'i wasanaethau drwy'r sianel fwyaf hygyrch ac y gallai Cysylltwyr Cymunedol<sup>4</sup> helpu pobl sydd angen cymorth ychwanegol. Dywedodd staff fod gan y Cyngor opsiynau amrywiol i gefnogi cwsmeriaid i gael gafael ar wasanaethau, er enghraifft, e-bost, ymweliad cartref, ffôn, Fy Nghyfrif (gwasanaethau ar-lein) a defnyddio print bras mewn llythyrau. Dywedodd ymatebwyr eu bod hefyd wedi cael hyfforddiant awtistiaeth i helpu i nodi gwahaniaethau posibl o ran cyfathrebu. Dywedodd ymatebwyr y

---

<sup>3</sup>Mae'n caniatáu i ddefnyddwyr gasglu data mewn fformat strwythuredig.

<sup>4</sup> Staff sy'n gweithio yn y gymuned.

byddent yn tynnu sylw'r adran a anfonodd yr atgyfeiriad at unrhyw anawsterau cyfathrebu, gydag un ymatebydd yn dweud y byddent hefyd yn gofyn am gyngor gan oruchwyliwr. Dywedodd un ymatebydd ei fod yn ansicr pa fesurau oedd gan y Cyngor i gefnogi gofalwyr ag anawsterau cyfathrebu.

51. Nid oedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod yna unrhyw rwystrau i asesu anghenion gofalwyr. Dywedodd ymatebwyr fod rhai gofalwyr yn teimlo ymdeimlad o ddyletswydd ac nad oeddent yn ystyried eu hunain yn ofalwr neu, oherwydd y gofynion ar eu hamser, nad oedd ganddynt yr amser i asesu eu hanghenion eu hunain. Dywedodd rhai ymatebwyr fod rhai gofalwyr yn ofni asesiad o anghenion gofalwr, gan eu bod yn credu y byddai eu gallu i ddarparu gofal i'w hanwyliaid yn cael ei asesu. Dywedodd ymatebwyr fod angen gallu darllen rhwng y llinellau a chlywed yr hyn na ddywedwyd, er enghraifft, pan fydd gofalwyr yn cysylltu â'r Cyngor i ofyn am gymorth ar gyfer y sawl sy'n derbyn gofal, gofynnir iddynt bob amser a yw eu hanghenion wedi cael eu hasesu fel gofalwr a, gyda chydysyniad, byddant yn cael gwybodaeth am eu hawliau fel gofalwr. Dywedodd un ymatebydd, o bryd i'w gilydd, pan fydd meddygon teulu'n atgyfeirio gofalwyr at y Cyngor, nad oedd y gofalwr bob amser yn ymwybodol bod y meddyg teulu wedi eu atgyfeirio ar gyfer asesiad o anghenion gofalwr.

### **Staff asesu anghenion gofalwyr**

52. Dywedodd ymatebwyr nad oedd llawer o ofalwyr yn derbyn gwasanaeth drwy eu hawl eu hunain gan fod gwasanaeth seibiant a gwarchod yn rhan o asesiad o anghenion gofal a chymorth y person sy'n derbyn gofal.

53. Dywedodd ymatebwyr eu bod wedi cwblhau hyfforddiant eDdysgu mewn perthynas ag asesiadau o anghenion gofalwyr, wedi cwrdd â'r Tîm Gofalwyr i godi ymwybyddiaeth ac wedi mynychu hyfforddiant mewn perthynas â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Dywedodd nifer o ymatebwyr eu bod hefyd wedi cysgodi cydweithwyr mwy profiadol sy'n cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod yr hyfforddiant a dderbyniwyd wedi eu helpu naill ai'n llawn neu i ryw raddau wrth ymgymryd â dyletswyddau mewn perthynas ag asesiadau o anghenion gofalwyr.

54. Dangosodd ymatebwyr eu dealltwriaeth o ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mewn perthynas â gofalwyr, gan egluro ei bod yn gyfle i ofalwyr gael eu cydnabod ac i ganiatáu ar gyfer cynllunio yn y dyfodol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr

yn gwybod ble i ddod o hyd i'r broses ac yn dweud ei bod yn hygyrch iawn ac yn ddealladwy. Dywedodd rhai nad oeddent yn gwybod ble i ddod o hyd i'r broses ond eu bod yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael gan y Tîm Gofalwyr.

55. Dywedodd ymatebwyr eu bod yn gwneud Cynnig Rhagweithiol i ofalwyr a bod ganddynt swyddogion sy'n siarad Cymraeg. Dywedasant fod ffurflenni asesu anghenion gofalwyr ar gael yn Gymraeg. O ran ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg, dywedodd ymatebwyr eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain. Nid oedd rhai ymatebwyr yn ymwybodol o'r gwasanaethau oedd ar gael i gefnogi gofalwyr nad Cymraeg na Saesneg oedd eu dewis iaith, ond dywedasant y byddent yn gofyn am gyngor gan reolwr.

56. O ran anawsterau cyfathrebu, dywedodd ymatebwyr fod ganddynt amrywiaeth o adnoddau gwahanol i gefnogi gofalwyr a allai fod ag anawsterau cyfathrebu gan gynnwys cynnig gwahanol ddulliau cyfathrebu, ffurfiau Hawdd eu Darllen, symbolau a lluniau, cymhorthion gweledol, mwyhawyr clyw, pecynnau Talking Mats<sup>5</sup> a'r opsiwn i geisio cymorth gan weithwyr proffesiynol/cyd-weithio priodol, er enghraifft, y Gwasanaeth Iaith a Lleferydd a'r Swyddog Nam ar y Golwg. Dywedodd rhai ymatebwyr y gallai rhai sydd wedi'u hyfforddi mewn amrywiol anghenion cyfathrebu gynnig gwasanaethau eiriolaeth, os yn briodol, er enghraifft, dementia, lleferydd ac iaith a llyfrau lluniau.

57. Nid oedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod yna unrhyw rwystrau i asesu anghenion gofalwyr. Nododd rhai ymatebwyr y rhwystrau canlynol sy'n atal gofalwyr rhag cael asesiad o'u hanghenion:

- Gofalwyr yn amharod i gymryd rhan oherwydd eu bod yn ofni cael eu beirniadu.
- Adnoddau dan bwysau a allai gael effaith andwyol ar yr amser a ddyrennir i asesu anghenion gofalwyr.
- Diffyg cefnogaeth i ofalwyr, er enghraifft, dim canolfannau dydd, diffyg darpariaeth seibiant ac oedi wrth gytuno ar becynnau gofal yn rhoi pwysau ar ofalwyr, ac yn aml yn arwain at lethu gofalwyr.

58. Mewn sylwadau pellach, dywedodd un ymatebydd fod y Tîm Gofalwyr yn amlwg iawn ac yn rhagweithiol wrth hyrwyddo hawliau gofalwyr.

---

<sup>5</sup> Ffordd o ymgysylltu â phobl sydd ag anawsterau cyfathrebu neu wybyddol.

## Staff Gofalwyr Ceredigion

59. Dywedodd ymatebwyr mai cwrs hyfforddiant Cyfathrebu Cydweithredol 2 ddiwrnod oedd eu hyfforddiant craidd, a oedd yn ymdrin ag agweddau ar y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a sut i roi ar waith asesiadau a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar gryfder. Dywedasant eu bod yn derbyn hyfforddiant gloywi rheolaidd. Dywedodd ymatebwyr eu bod wedi cael eu hyfforddi i wrando ar ofalwyr er mwyn i ofalwyr allu nodi eu hatebion eu hunain a oedd yn sail i'w hasesiad o anghenion. Roedd yr ymatebwyr o'r farn bod yr hyfforddiant a gafwyd yn eu cefnogi yn eu rôl.

60. Dywedodd ymatebwyr eu bod yn deall proses asesu anghenion gofalwyr a'i bod yn hygyrch iawn a'i bod yn ddealladwy.

61. Dywedodd ymatebwyr fod gan Ofalwyr Ceredigion staff Cymraeg, petai Cymraeg yn ddewis iaith y gofalwr. Dywedasant, os oedd dewis iaith y gofalwr yn iaith ar wahân i Gymraeg neu Saesneg, eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau cyfieithu, gan gynnwys iaith Arwyddion Prydain. Dywedodd un aelod o staff y byddent yn gofyn am gyngor gan eu rheolwr llinell mewn sefyllfa o'r fath. O ran gofalwyr ag anawsterau cyfathrebu, dywedodd ymatebwyr y byddent yn gofyn am gyngor gan gydweithwyr, y Bwrdd Iechyd neu'r awdurdod lleol. Dywedasant eu bod yn ceisio cefnogi pobl ym mha ffordd bynnag sy'n gweithio orau iddynt.

62. Dywedodd ymatebwyr nad oedd unrhyw rwystrau i asesu anghenion gofalwyr drwy'r gwasanaeth a ddarperir gan Ofalwyr Ceredigion. Dywedasant fod gofalwyr weithiau'n ei chael yn anodd cael trydydd parti yn eu tŷ neu eu bod yn ei chael yn anodd gadael eu tŷ i fynychu asesiad, a allai fod yn rhwystr rhag asesu eu hanghenion. Dywedasant hefyd y gallai anawsterau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu hefyd fod yn rhwystr. Roeddent yn dweud y gallai ynysu daearyddol hefyd fod yn rhwystr i asesu anghenion gofalwr.

63. Dywedodd ymatebwyr eu bod yn credu bod y system yn gadarn ac yn effeithiol ond eu bod yn cydnabod bod lle i wella bob amser o ran y ffordd y cynhaliwyd asesiadau. Mynegodd ymatebwyr bryderon nad oedd rhai o dimau'r Cyngor yn siŵr pwy oedd yn gyfrifol am ddarparu asesiadau o anghenion gofalwyr pan oedd y gofalwr yn oedolyn a phan oedd y gofalwr yn blentyn – dywedasant y byddai canllawiau clir yn ddefnyddiol.

## Tystiolaeth gan y rheini sydd â phrofiad bywyd

### Gofalwr D – Ceredigion

64. Roedd Gofalwr D yn gofalu am riant. Dywedodd Gofalwr D ei bod yn wybodus iawn am y broses asesu anghenion gofalwyr oherwydd ei gwybodaeth alwedigaethol. Dywedodd Gofalwr D na fyddai gan eraill yn yr un sefyllfa yr un ddealltwriaeth â hi. Dywedodd Gofalwr D fod anghenion gofal ei rhiant wedi gwaethygu yn ystod y pandemig a bod ei rhiant wedi'i ynysu'n gymdeithasol ac nad oedd ganddo drefn ddyddiol mwyach. Dywedodd Gofalwr D fod gwasanaethau'r trydydd sector "wedi diflannu'n llwyr" ac nad oedd y cymorth a oedd ar gael, ee dyfeisiau electronig, yn addas i ddiwallu eu hanghenion.

65. Yn ôl Gofalwr D, petai'r Cyngor yn darparu'r bobl iawn ar yr adeg iawn, y byddai'r broses yn gweithio ac y byddai'r ymyriadau'n gynt, ond, yng Ngheredigion, nid oedd digon o Weithwyr Cymdeithasol na digon o adnoddau i ddiwallu anghenion.

66. Atgyfeiriodd Gofalwr D ei hun i gael asesiad o anghenion gofalwr ac roedd yr asesiad yn canolbwyntio i ddechrau ar anghenion ei rhiant. Dywedodd Gofalwr D fod yr asesiad, ar ôl ei hunan-atgyfeiriad, wedi dechrau'r mis canlynol, ond cymerodd tan y mis canlynol eto i'r asesiad gael ei gwblhau gan fod yn rhaid i'r Cynorthwydd Gwaith Cymdeithasol a gwblhaodd yr asesiad o anghenion gofalwr atgyfeirio at Weithiwr Cymdeithasol i gysylltu ag asesiad ei rhiant. Dywedodd Gofalwr D ei bod wedi cymryd chwe mis i ddiwallu anghenion ei rhiant. Dywedodd Gofalwr D fod hyd y broses yn rhwystredig, ond ei bod hi'n deall, gan nad oedd iechyd yn gysylltiedig â gofal cymdeithasol.

67. Dywedodd Gofalwr D ei bod wedi bod yn ddefnyddiol iawn cael asesiad o anghenion gofalwr gan ei fod wedi helpu i fynegi ei hanghenion fel gofalwr ac wedi tynnu sylw at ei hanghenion pwysicaf. Dywedodd Gofalwr D fod Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwrando ar broblemau ond bod y Cynorthwydd Gwaith Cymdeithasol, a oedd yn dda yn ôl Gofalwr D, yn cael trafferth rhoi cymorth ar waith ar gyfer Gofalwr D. Dywedodd Gofalwr D mai dim ond ar ôl cyfnod aciwt y dechreuodd pethau ddatblygu, a neilltuwyd Gweithiwr Cymdeithasol. Dywedodd Gofalwr D fod y cyfan wedi dod at ei gilydd ar ôl i'r Gweithiwr Cymdeithasol gael ei neilltuo. Archwiliodd hwnnw yr opsiwn o gael seibiant gan ystyried y sefyllfa yn ei chyfanrwydd.

68. Dywedodd Gofalwr D nad oedd ei hanghenion hi wedi cael eu diwallu gan eu bod yn aros am becyn gofal ar gyfer ei rhiant, ond bod anghenion ei rhiant yn newid yn gyflym.



Dyweddod Gofalwr D ei bod wedi mynnu na allai ei rhiant gael ei ryddhau o'r ysbyty heb becyn gofal ar waith. Dywedodd Gofalwr D y byddai wedi bod yn ddefnyddiol petai'r asesiadau ar gyfer gofalwyr a'r rheini sy'n derbyn gofal wedi'u cwblhau gyda'i gilydd ar ddechrau'r broses, ond gallai weld bod y Cynorthwydd Gwaith Cymdeithasol dan gymaint o bwysau fel mai blaenoriaeth Gofalwr D oedd sicrhau asesiad ar gyfer ei rhiant gan fod Gofalwr D yn ddigon cadarn i ymdopi â'r sefyllfa. Dywedodd Gofalwr D, petai anghenion yn cael eu nodi ond nad oedd modd darparu'r cymorth oedd ei angen i ddiwallu'r anghenion hynny, y dylid dweud hyn wrth y gofalwyr a'r rheini sy'n derbyn gofal. Yn ôl Gofalwr D dylai staff fod yn glir ynghylch amserlenni a'r hyn y gellir ei wneud yn y cyfamser i ddarparu cymorth.

69. Dywedodd Gofalwr D mai'r agwedd fwyaf heriol oedd sefydlu'r Taliadau Uniongyrchol gan eu bod yn gymhleth. Dywedodd Gofalwr D, os oedd gofalwr eisoes yn darparu gofal 24 awr, yna roedd gorfod chwilio am staff gofal, bod yn gyflogwr arnynt a delio ag Yswiriant Gwladol a gwiriadau DBS yn llawer o waith ychwanegol. Roedd Gofalwr D yn cydnabod y gallai Taliadau Uniongyrchol fod yn rhyddhad i rai ond nid o reidrwydd i ofalwyr.

70. Dywedodd Gofalwr D eu bod wedi cael eu trin â charedigrwydd a pharch, ond y broblem fwyaf oedd gweithredu ar unrhyw beth. Dywedodd Gofalwr D fod y cymorth a gafodd wedi gwneud ei rôl gofalu yn well a bod y Gweithiwr Cymdeithasol yn dda am gyfeirio at y cymorth sydd ar gael yn y trydydd sector.

71. Dywedodd Gofalwr D ei bod hi a gofalwyr eraill yn aml yn teimlo bod pobl yn troi cefn arnynt pan fydd y bobl maent yn gofalu amdanynt yn symud i ofal preswyl; nid ydynt yn gymwys i gael brechiadau mwyach a byddent yn colli'r cymorth a gawsant fel gofalwr – "nid yw'n dirwyn i ben yn raddol, mae'n dod i ben yn llwyr".

72. Dywedodd Gofalwr D fod eiriolaeth wedi cael ei chynnig iddi, a chynhaliwyd yr asesiad yn ei dewis iaith.

### **Gofalwr E – Ceredigion**

73. Mae Gofalwr E yn gofalu am ei gŵr. Dywedodd Gofalwr E fod cwrdd â Gweithwyr Cymdeithasol yn ddryslud - a oeddent yn asesu ei hanghenion hi neu anghenion ei gŵr? Ni allai Gofalwr E gofio sut clywodd am ei hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr ond, ar ryw adeg, dechreuodd ei gŵr fynd i Ganolfan Ddydd. Esboniodd Gofalwr E fod y Ganolfan

Ddydd wedi cau yn ystod y pandemig ac nad oedd wedi ailagor. Roedd hyn yn drueni gan ei fod yn un lle y gallai ei gŵr gymdeithasu hebddi, ac roedd hefyd yn rhoi cyfle iddi gael seibiant. Dywedodd Gofalwr E fod methu gwneud ymarfer corff yn effeithio ar ei llesiant gan ei bod yn ffynnu'n well ar ôl gwneud ymarfer corff. Dywedodd Gofalwr E fod ei hasesiad diwethaf o anghenion gofalwr yn 2020 wedi cael ei sbarduno fwy na thebyg ar ôl iddi holi ynghylch ailgychwyn gwasanaethau'r Ganolfan Ddydd.

74. Esboniodd Gofalwr E eu bod wedi cael amrywiaeth o asesiadau ar ôl i'w gŵr gael ychydig o dderbyniadau brys i'r ysbyty a bod pryderon a godwyd gan Dîm Nyrsio'r Ardal "yn ei rhoi ar y map" fel gofalwr. Cynhaliwyd asesiadau pellach yn fwy diweddar ar ôl i'w gŵr fynd ar goll ac atgyfeiriodd yr heddlu'r mater at y Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd Gofalwr E fod y Gweithiwr Cymdeithasol wedi nodi'n glir mai asesiad o anghenion gofal a chymorth ei gŵr oedd hwn, nid o'i hanghenion hi. Dywedodd Gofalwr E fod y Gweithiwr Cymdeithasol yn dda iawn ac wedi asesu'r sefyllfa, ond nad oedd wedi asesu ei hanghenion hi fel gofalwr. Dywedodd fod y Gweithiwr Cymdeithasol wedi sylweddoli bod ei gŵr yn gwbl ddibynnol arni.

75. Dywedodd Gofalwr E eu bod bellach yn derbyn Taliadau Uniongyrchol i ddarparu gofal seibiant, gyda hi a'i gŵr yn derbyn oriau penodol. Fodd bynnag, dywedodd Gofalwr E, o bryd i'w gilydd, na allai'r cwmni gofal gyflawni ei gontract ac na allai fynychu apwyntiadau wedi'u trefnu na gwneud unrhyw gynlluniau go iawn. Dywedodd Gofalwr E y byddai'n well ganddi gael gwasanaethau Canolfan Ddydd er mwyn i'w gŵr allu cymdeithasu gyda dynion eraill yn hytrach na dim ond gyda'r gofalwyr.

76. Yn ôl Gofalwr E, roedd yr asesiadau wedi cael eu cynnal yn ei dewis iaith, ond ni chynigiwyd gwasanaethau eiriolaeth iddi. Dywedodd Gofalwr E nad oedd ganddi unrhyw syniad a oedd wedi derbyn copi o'i hasesiad o anghenion gofalwr.

### **Gofalwr F – Ceredigion**

77. Roedd Gofalwr F yn gofalu am ei berthnasau oedrannus. Dywedodd Gofalwr F ei fod wedi clywed am ei hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr yn araf iawn ac na chafodd asesiad o'r fath tan ddwy flynedd ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym. Dywedodd Gofalwr F fod ei asesiad cyntaf fel gofalwr unigol, ond yn ei asesiad dilynol cafodd ei asesu ochr yn ochr â'i berthynas.

78. Dywedodd Gofalwr F fod ei asesiad cyntaf yn “llai na diwerth” gan ei fod dan yr argraff bod staff yn dweud wrtho beth yr oedd ganddo hawl iddo ond nad oedd hyn wedi caei ei roi ar waith unrhyw bryd, ac ni ddiwallwyd ei anghenion. Dywedodd fod staff, yn ei ail asesiad, wedi dweud wrtho beth yn union yr oedd ganddo hawl iddo, a beth nad oedd ganddo hawl iddo. Dywedodd eu bod wedi rhoi’r pethau hynny ar waith ar unwaith a bod y cymorth a ddarparwyd yn diwallu ei anghenion. Dywedodd Gofalwr F nad oedd ei asesiad cyntaf wedi cael unrhyw effaith ar ei rôl gofalu, ond bod yr ail asesiad wedi cael “effaith fawr” gan y penderfynwyd mai gofalwyr cyflogedig oedd y ffordd ymlaen. Dywedodd Gofalwr F fod rhywfaint o ddryswch o ran gwneud penderfyniadau ynghylch ei hawl i gael seibiant.

79. Dywedodd Gofalwr F fod ei asesiad wedi cael ei gynnal yn ei ddewis iaith, ond na chynigiwyd gwasanaethau eiriolaeth iddo. Dywedodd Gofalwr F na chynigiwyd copi o’i asesiad iddo ar ôl y naill asesiad na’r llall.

80. Dywedodd Gofalwr F y byddai, yn y dyfodol, yn hoffi gweld pob asesiad yn cael ei gwblhau yng nghwmni’r gofalwr, y sawl sy’n destun gofal, y Gweithiwr Cymdeithasol ac eiriolwr annibynnol fel mater o drefn ac y dylid ystyried cyfnod o bontio pan ddaw rôl gofalu i ben.

## **Gofalwr G – Ceredigion**

81. Mae’r gofalwr G yn gofalu am ei phlentyn. Dywedodd Gofalwr G ei bod yn ymwybodol o’i hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr drwy dîm Plant ag Anableddau y Cyngor, ‘Tîm Plant Anabl’. Dywedodd ei bod wedi cael cyfarfod wyneb yn wyneb ag aelod o staff y Tîm a’i bod wedyn wedi cael asesiad wedi’i gwblhau y bu’n rhaid iddi ei wirio am gywiriadau. Dywedodd fod y Tîm wedi helpu llawer gyda’r ffurflenni, a oedd yn ddefnyddiol, gan nad oedd ganddi lawer o brofiad o lenwi ffurflenni, ac roedd hyn wedi tynnu pwysau oddi arni. Dywedodd Gofalwr G fod yr asesiad wedi ei helpu i lywio drwy system gymhleth ac na allai fod wedi gwneud hynny heb y gefnogaeth a gafodd. Dywedodd, er mwyn cael mynediad at lawer o wasanaethau, fod arni angen cefnogaeth gweithwyr proffesiynol i gael cymorth, er enghraifft, i gael cadair olwyn arbenigol gan elusen neu i weld paediatregwyr. Dywedodd, heb y cymorth a gafodd, na fyddai wedi cael hynny.

82. Dywedodd Gofalwr G fod ganddi gynlluniau cymorth parhaus a’i bod yn cwrdd â gweithwyr proffesiynol ddwywaith y flwyddyn, lle mae’r cymorth ar gyfer ei mab a hi ei hun

yn cael ei adolygu, gan gynnwys sut gall ei mab gael mynediad at addysg addas a gofal iechyd a chymdeithasoli. Dywedodd Gofalwr G nad oedd yn gwybod sut y byddent wedi ymdopi heb y cymorth a gafwyd gan y gwasanaethau iechyd a'r awdurdod lleol, sydd wedi creu cynlluniau sydd wedi gwella ansawdd bywyd ei mab.

83. Dywedodd Gofalwr G nad oedd yn cymryd llawer o amser i drefnu asesiad o anghenion gofalwr, a chytunwyd ar ddyddiad ac amser yn brydlon. Dywedodd fod yr asesiad ei hun wedi cymryd tua awr. Dywedodd Gofalwr G eu bod yn siarad am ei hanghenion hi a'i mab yn ystod yr asesiad a bod y canlyniadau'n cael eu personoli i'w hanghenion.

84. Dywedodd Gofalwr G fod yr asesiad yn bodloni ei disgwyliadau a'i hanghenion penodedig. Dywedodd y rhoddwyd copi o'i hasesiad wedi'i gwblhau iddi. Dywedodd Gofalwr G y cafodd yr asesiad ei gynnal yn ei dewis iaith. Dywedodd na chynigiwyd yr opsiwn o eiriolaeth iddi ond bod y gweithiwr yn ymwybodol ei bod yn eiriolwr dros ei mab.

85. Dywedodd Gofalwr G y byddai'n braf cael asesiad yn amlach, ond roedd hi'n gwerthfawrogi pa mor brysur a llethol y gall fod ac roedd hi'n ddiolchgar am yr asesiadau roedd hi eisoes wedi'u cael.